PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 477 | Mawrth 2025



Treftadaeth Leol t.18



Diwrnod o lawenydd t.14



t.4 Eisteddfod Ysgol Penweddig 2025



Llongyfarchiadsu i Nesta o Benrhyn-coch - disgybl yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth fydd yn cynrychioli Ceredigion gyda'i chlarinet yn Eisreddfod yr Urdd ym Margam.



Aelodau panto CFfI Tal-y-bont fu'n perfformio y panto Dafydd ap Gwilym a'r busnes caru 'ma yn Theatr Felin-facha wedyn yn Neuadd Tal-y-bont ar 18 Mawrth. Gweler hefyd t.13

## CHWARAE DROS GYMRU




Llongyfarchiadau i Lois Medi Pantyperan - Bl 13 Penweddig ar chael ei dewis i garfan rygbi dan 18 Merched Cymru yn yr Eidal ganol Mawrth.




Deian Gwynne a serenodd i Gymru dan 20 yn eu buddugoliaeth yn erbyn Lloegr ar Fawrth 14.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Ebrill** – **Dyddiad cau** Ebrill 4;
**Dyddiad cyhoeddi** Ebrill 16

**MAWRTH**

20 Dydd Iau Eisteddfod yr Urdd Ceredigion cylch Ystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau ddd

21 Dydd Gwener Dydd Trwynau Coch

22 Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn. Gŵr gwadd: Jim O'Rourke

22 Nos Sadwrn Miri Mawr gyda Dylan Morris, Dylan a Neil yng nghwmni Dilwyn Ewards yn Llety Parc, Aberystwyth am 8.00
Holl elw'r noson tuag at Glwb Strôc Aberystwyth

28 Dydd Gwener Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – uwchradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

29 Dydd Sadwrn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

29 Nos Sadwrn Ffair Wanwyn PATRASA yn Neuadd Y Penrhyn

**EBRILL**

4-5 Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch am 4.00 (nos Wener); 2.00 a 6.30 (Dydd Sadwrn)

4 Nos Wener Noson Dreftadaeth ardal Bow Street. Arddangosfeydd a ffilmiau yn Neuadd Rhydypennau am 7.00.

11 Nos Wener Sioned Webb a Mair Tomos Ifans yn cyflwyno "Trwy'r tannau" yn Arad Goch am 7.30. Tocynnau: £15 ar gael gan Arad Goch (01970 617998) neu Rocet Arwel Jones (rocetarwel@yahoo.com)

15 Nos Fawrth Gweithdy Pasg - Jayne Solomon Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.30

16 Nos Fercher Dafydd Llewelyn O Gwmderi i Holby Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

27 Dydd Sul Treiathalon a barbeciw Goginan yng Nghae Pentref Goginan am 13.00

25-27 Dyddiau Gwener i Sadwrn Gŵyl Crime Cymru Festival yn Aberystwyth. Manylion a rhaglen ar y wefan https://gwylcrimecymrufestival.co.uk/

## Cyfeillion Y Tincer


Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Chwefror 2025

**£25** (Rhif 143) Maldwyn Williams, 38 Aberwennol, Y Borth.
**£15** (Rhif 214) Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog
**£10** (Rhif 87) Bryn Roberts, Cilgwyn, 5 Brynmeillion, Bow Street

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plîs rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost bethanbebb162@gmail.com
**Fel trefnydd y Cyfeillion rwyf yn ymddiheuro am nad yw'r gwobrau wedi ei talu allan ers mis Ionawr. Rydym wrthi yn newid y cyfrif banc ac mae ambell broblem wedi codi.**

## RHODDION

Mae **Elwyna Davies** wedi rhoi rhodd o £25 a enillwyd gyda'r Cyfeillion i'r Tincer.



# Eisteddfod Calan Mai

Beth i chi yn ei wneud ar ddydd Iau 8fed Mai? Beth am ddod i Eisteddfod Calan Mai, Morlan, Aberystwyth i gystadlu - gan fod y pwyllgor wedi penderfynu agor lan y cystadlaethau i unrhyw un, ble bynnag i chi yn byw. Ma gyda ni raglen ddiddorol o ran dewisiadau cystadlaethau llwyfan a hefyd yn yr adran gwaith cartref. O osod blodau, i gyflwyno ffotograffau a gwaith celf. Ma modd gweld y rhaglen ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Eleni ni wedi rhoi comisiwn i Adran Gelf Coleg Ceredigion i baratoi dau dlws ar gyfer y ddwy brif gystadleuaeth yn yr adran ysgrifenedig ac yr ydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld y rhain wedi eu gwneud. Fel Pwyllgor rydym yn ddiolchgar i Bapur Bro Yr Angor am noddi'r tlysau arbennig hyn Ein beirniaid yw Trystan Lewis a Garry Owen, dau brofiadol iawn a fydd yn cyfoethogi ein heisteddfod gyda'u presenoldeb. Bydd y gwaith celf yn cael ei feirniadu gan Gareth Owen, meistr arall yn ei faes ynghyd a Donald Morgan a fydd yn gwneud gwaith arbennig yn beirniadu'r blodau yn ôl yr arfer Felly cofiwch y dyddiad ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â Megan ar meganjones849@gmail.com

## 30 mlynedd yn ôl




Aelodau tîm pêl-droed o dan 11 Horeb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn Aberteifi. O'r chwith i'r dde : Cemlyn Davies, Ben Billing, Reian Jones, Rhys Morgan, Ceri John (ar fenthyg), Robert Glyn Hughes, Mervyn Hughes (Rheolwr), Rhian Dobson. (O'r *Tincer* Mawrth 1995)


## Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion 2025

Rihyrsals
Nos Fercher 7.00

*Ebrill*
16 Capel y Morfa
30 Bethel, Aberystwyth

*Mai*
7 Seion
14 Capel y Morfa

Cymanfa Ganu Undebol Gogledd Ceredigion
Capel y Morfa, Aberystwyth
Dydd Sul, 18 Mai 2025 am 10yb a 5.30yh




## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Dathlu Gŵyl Ddewi**
Cafwyd cawl eleni eto yng Nghanolfan Groeso Statkraft pryd y daeth nifer dda iawn ynghyd, yr ieuengaf yn chwe mis oed a' r hynaf bron yn naw deg! Paratowyd y cawl gan Ann Ellis a Beti Daniel ac mi roedd nifer o aelodau y Gymuned wedi cyfrannu gwahanol eitemau. Diolch i Elen Howells a Seren am drefnu adloniant ysgafn i gloi y noson. Noson hyfryd a chymdeithasol iawn.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus i Seren Skipp a phob hwyl gyda y gyrru!!

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Sian Morris, Neuadd Parc, ar farwolaeth ei mam yn Sir Fôn.

Yn ddiweddar daeth y newyddion am farwolaeth Teleri, chwaer y diweddar Aneurin Morgan, Y Byngalo. Estynnwn ein cydymdeimlad â Dwynwen a Meinir - y ddwy yn derbyn y Tincer bob mis ac yn cadw cysylltiad gyda Chwmrheidol o hyd.






# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Mawrth*

23 2.30 Peter Thomas ym Methel (Ab)
30 2.30 Peter Thomas

*Ebrill*

6 2.30 Peter Thomas yng nghwmni Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol
13 10.30 Peter Thomas Oedfa gymun
20 10.00 Sul y Pasg Geraint Evans – Bethel, Tal-y-bont Sul yr ofalaeth
27 10.30 Hywel Davies

**Cymdeithas y Penrhyn**

Mynychodd nifer dda o aelodau gyfarfod Cymdeithas y Penrhyn yng Nghapel Horeb ar nos Fercher 19eg Chwefror. Cyflwynodd y Cadeirydd, Angharad Fychan, yr awdur a darlledwr adnabyddus Mike Parker, gan esbonio ei fod yn hanu o Loegr ond wedi ymgartrefu yn ardal Machynlleth ers chwarter canrif.

Daeth Mike a'i bartner Peredur yn ffrindiau agos â Reg a George a fu'n byw yn Rhiw Goch, Tal-y- wern. Yr oedd Reg a George wedi bod gyda'i gilydd ers y 1950au pan oedd



perthnasau hoyw yn anghyfreithlon Hwythau oedd y cwpl cyntaf i gofrestru partneriaeth sifil ym Machynlleth yn 2006.

Bu'r ddau farw o fewn wythnosau i'w gilydd yn 2011 a synnodd Mike a Peredur o glywed eu bod wedi etifeddu Rhiw Goch, lle maent yn byw bellach ac yn rhedeg busnes gwely a brecwast a glampio. Disgrifiodd iddynt ddarganfod trysordy o ddyddiaduron, llythyrau ac albymau ffotograffau yn y tŷ yn cofnodi bywyd Reg a George. Gwelsom ddetholiad o'r lluniau hyn yn ystod sgwrs Mike.

Esboniodd Mike ei fod wedi dymuno encilio o fywyd cyhoeddus am sbel ar ôl bod yn ymgeisydd mewn etholiad ddadleuol yng Ngheredigion yn 2015 a dyna sut ddechreuodd ysgrifennu *On the Red Hill,* a gyhoeddwyd yn 2019. Mae'r llyfr yn olrhain hanes Reg a George a Mike a Peredur ond hefyd mae'n cynnwys hanes Rhiw Goch a'r ardal, cylch natur a myfyrdodau ynglŷn â Chymreictod.

Mae'r llyfr wedi'i rannu yn chwarteri sydd yn delio â'r pedwar cymeriad ac yn cysylltu pob un ag un o'r elfennau traddodiadol (pridd, dŵr, tân ac awyr), un o bedwar prif gyfeiriad y cwmpawd ac un o'r pedwar tymor. Dywedodd Mike fod y strwythur cymhleth wedi gorfodi cynllunio'n fanwl gyda nodiadau "Post-it" yn gorchuddio wal ei swyddfa.

Diolchodd Angharad i Mike am sgwrs ddiddorol a mwynhawyd paned wedi'i pharatoi gan ferched Aberystwyth.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Terry a Wendy Jones, Maesyrefail, ar farwolaeth brawd Terry, Gwynda, yng Nghartref Cysgod y Coed.

**Eisteddfod Penrhyn-coch**

Cofiwch am Steddfod Penrhyn-coch - nos Wener a Sadwrn 4-5 Ebrill. daeth cnwd da o waith catrtref i mewn - yn eu plith - Cadair (13), englyn (11), cân werin gyfoes (12), cerdd i blant (15)

## Cylch Meithrin Trefeurig

Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr.







## Cawl Gŵyl Ddewi

Daeth bron i hanner cant ynghyd i Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch i ddathlu Cinio Cymunedol Gwyl Dewi ar ddydd Mercher, 26 Chwefror 2025. Mwynhawyd y bwyd blasus o gawl, bara a menyn, caws, ba ra brith, pice ar mlaen a phaned o de/coffi



# CANLYNIADAU PÊL-DROED PENRHYN-COCH

**Tim 1af**

*Chwefror*

**15** Penrhyn-coch 0 Bwcle 0

**18** Penrhyn-coch 4 Caersŵs 0

*Mawrth*

**1** Caersŵs 1 Penrhyn-coch 2

**8** Penrhyn-coch 1 Airbus UK Brychtyn 3

**11** Penrhyn-coch 1 Llai Welfare 0

**Eilyddion**

*Chwefror*

**11** Eilyddion Penrhyn-coch 3 Eilyddion Llanidloes 0

*Mawrth*

**4** Eilyddion Penrhyn-coch 0 Eilyddion Bow Street 0

**8** CPD Llanilar 7 Eilyddion Penrhyn-coch 2



Cynhaliwyd noson Goffa, Coffi a Chwis er cof am Glyn Collins a Lyn Lewis Dafis. Diolch i'r holl gwisfeistri am osod y cwestiynau a'r posau. Cafwyd rownd o gwestiynau yn ymwneud â 'Chymru Heddiw', tipyn o grafu pen wrth bendroni dros luniau, arbrofi ein sgiliau arsylwi ar wahanol leoliadau o amgylch Aberystwyth, pymtheg o gwestiynau am bymtheg person o'r enw Richard a 'Ble yn y byd'.



## Priodas

Dymuniadau gorau i Nia Wyn Davies (Ger-y-llan gynt) a Mark Williams ar eu priodas yng Nghaerffili ar 21 Chwefror.







COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
9.00-4.30
Sul: Ar gau
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Lleolir ffermydd *Cerrigcaranau Uchaf* (SN634900) a *Cherrigcaranau Isaf* (SN632898) i'r gorllewin o bentref Tal-y-bont ar gwr deheuol Cors Fochno.




**Map Arolwg Ordnans 6" arg. 1af 1887 Cardiganshire III NE**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Daw'r cyfeiriad cynharaf at yr enw o weithred yng nghasgliad H. Harold Hughes a luniwyd ym mis Tachwedd 1609 sy'n amlinellu manylion morgais *haner Tythyn kerrig karraney* a *haner Y tuy mawr yngherig karraney*.[1]

Awgryma'r ffynhonnell hon mai *garanau*, un o ffurfiau lluosog y gair *garan*, sydd yma, ond gyda'r gytsain flaen *g-* wedi caledu'n *c-* dan ddylanwad y *-g* ar ddiwedd *cerrig*. Aderyn tal urddasol yw'r *garan*, a chanddo wddf a choesau hir, a chri uchel; 'crane' yn Saesneg. Er nad yw i'w weld ond mewn ambell fan neilltuol yn Norfolk a Gwlad yr Haf erbyn heddiw, roedd yn gyffredin ar hyd a lled y wlad hyd ryw bedwar can mlynedd yn ôl. Gan mai gwlyptir a glaswelltir yw ei gynefin naturiol, ni fyddai'n syndod ei ganfod mewn ardal fel Cors Fochno.

Dengys ffurfiau hanesyddol yr enw i'r elfen *caranau* ddechrau cael ei hystumio i *cyranau* erbyn y ddeunawfed ganrif. Dyna a welir yn y ffurf *Tythyn Cerrig cyrrane* a gofnodwyd mewn cytundeb priodas yng nghasgliad gweithredoedd stad Cwrt-mawr, Llangeitho, yn 1719/20.[2] Dadfathiad yw'r enw ar y broses hon pan fo un o ddwy neu ragor o seiniau tebyg mewn gair yn newid er mwyn bod yn wahanol i'r llall neu'r lleill.


Ar lafar, tueddir i gyfeirio at y ffermydd hyn fel *Cerrigtrane*, gan ragdybio mai *taranau*, ffurf luosog *taran*, yw'r ail elfen, a hynny o bosibl am ei fod yn air mwy cyfarwydd na *garan*. Mewn gwirionedd, gellir olrhain yr amrywiad hwn yn ôl i ddechrau'r ddeunawfed ganrif lle ceir cofnod o *Kerrig Kyrannau al[ia]s Kerrig Tyrrannau* yn un arall o weithredoedd H. Harold Hughes yn 1717/18.[3]

Mae'n amlwg bod yr elfen olaf hon wedi peri dryswch i'r Arolwg Ordnans hefyd am fod dwy ffurf wahanol ar yr enw wedi eu cyfosod ar amryw o'u mapiau, gan gynnwys y map cyfredol:




**Map Arolwg Ordnans 1:25,000 Colour Raster (Mehefin 2024)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Ac ystyried lleoliad *Cerrigcaranau* nid nepell o Fae Ceredigion, nid yw'n syndod i rai geisio'i gysylltu ag enw *Gwyddno Garanhir* yn chwedl Cantre'r Gwaelod. Tebyg mai traddodiad lleol o'r fath a geir gan Richard Morgan, y naturiaethwr a fagwyd yn Nhal-y-bont, mewn erthygl yng nghylchgrawn *Cymru* yn 1910:[4]


Ar fin dwyreiniol y Gors, ar gyfer y Borth, mae ffermdy o'r enw Cerrig Caranau. Yn ymyl y ty cwyd craig. Dywedir mai i hon y rhedodd Gwyddno Garanhir, brenhin Cantre'r Gwaelod "pan droes y don dros ei dir." Ai Cerrig Garanhir yw Cerrig Caranau, fel yr awgrymir gan rai?

Tybed a yw'r traddodiad hwnnw'n gyfarwydd i ddarllenwyr *Y Tincer*?

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
a Geiriadur Prifysgol Cymru https://www.geiriadur.ac.uk/

1 Casgliad H. Harold Hughes 21 (LlGC), 16 Tachwedd 1609.
2 Cwrt-mawr Deeds 1723 (LlGC), 10 Mawrth 1719/20.
3 H. Harold Hughes 77 (LlGC), 6 Chwefror 1717/18.
4 Cymru 38 (1910) 55.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

## Dôl-y-bont

**Croeso**
Croeso cynnes i Glenside i Mererith Rendell a Rachel Rey. Maent wedi symud atom o Rydyfelin. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gaenor, Warren, Tirion a Gruff, Tynsimdde, ar farwolaeth tad Gaenor - Mr Arwyn Jones o Bontrhydfendigaid.

## Dolau

**Gwella**
Da clywed bod Dafydd Evans, Madryn ac Ifor Mason, Bryngwyn Mawr y ddau adre ac yn cryfhau ar ôl sbel yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

## Colofn Ben Lake AS



Mae bron i draean o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig, ond rydym yn parhau i brofi anghyfiawnder o ganlyniad i anwybodaeth ein llywodraethau canolog am fywyd cefn gwlad. Diffyg gwasanaethau cyhoeddus, tlodi tanwydd a chysylltedd digidol gwan yw rhai o'r prif broblemau sy'n wynebu pobl Ceredigion Preseli ar hyn o bryd, ac mae amharodrwydd ein llywodraethau i fynd i'r afael â'r problemau yma yn ein gosod dan anfantais i gymharu â phoblogaeth drefol Cymru.

Cafodd cymunedau ar draws Ceredigion Preseli eu heffeithio'n ddifrifol gan storm Darragh, gyda miloedd o gartrefi heb drydan, a nifer sylweddol heb ddŵr na chwaith ag unrhyw ffordd o gyfathrebu â theulu a ffrindiau. Bûm mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power yn ystod y dyddiau ac wythnosau wedyn i geisio sicrhau bod cartrefi yn cael eu hailgysylltu cyn gynted â phosib a bod y bobl fwyaf bregus yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth briodol.

Holais gwestiwn brys yn y Senedd er mwyn amlygu difrifoldeb y sefyllfa, ac roedd hi'n amlwg o ymateb Llywodraeth y DU nad oeddynt yn deall yr angen am gymorth pellach i'r cymunedau hynny oedd yn parhau i wynebu trafferthion. Amlygodd storm Darragh fregusrwydd cymunedau gwledig i effeithiau andwyol stormydd o'i fath, i gymharu â chymunedau trefol. Mae cymaint o'n cyfleustodau allweddol yn dibynnu ar drydan erbyn hyn – o wresogi ein tai i'n rhwydweithiau ffôn symudol. Mae'r olaf yn sicr yn broblem mewn ardaloedd gwledig gan fod nifer o bobl wedi derbyn uwchraddiad o linellau tir copr i dechnoleg ddigidol, sy'n ddibynnol ar bŵer trydan. Roedd nifer o drigolion Ceredigion Preseli felly, heb unrhyw fodd o gysylltu â'r byd allanol oherwydd y ddibyniaeth ar y cyflenwad trydan. Dwi wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu strategaeth hirdymor i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a fydd yn fwy cyffredin o ganlyniad i newid hinsawdd.

Enghraifft arall o anwybodaeth llywodraeth ganolog o anghenion ardaloedd gwledig yw'r penderfyniad i ddiffodd y Gwasanaeth Radio Teleswitch (RTS) ar 30ain o Fehefin 2025. Ceredigion Preseli sydd â'r nifer fwyaf o gartrefi ar draws Gymru y bydd yn cael eu heffeithio gan y diffoddiad. Os oes gennych fesurydd trydan RTS, mae'n debygol bod eich cyflenwr trydan eisoes wedi cysylltu i'ch annog i osod mesurydd clyfar. Fodd bynnag, dwi'n ymwybodol bod nifer o gymunedau ar draws Ceredigion Preseli sydd â signal annigonol i fesuryddion clyfar weithredu'n effeithiol. Dwi wedi galw ar Lywodraeth y DU i oedi'r diffoddiad i ganiatáu amser digonol i ystyried yn drylwyr effaith y diffoddiad ar gymunedau gwledig, gan nad oes signal dibynadwy eto'n bodoli mewn rhannau helaeth ar draws yr etholaeth, i gynnal y system newydd.

Heb os, mae'n hen bryd bod ein llywodraethau canolog yn gweithredu dros ein cymunedau gwledig i sicrhau ein bod yn derbyn yr un chwarae teg â threfi a dinasoedd. Hyd nes eu bod nhw'n ymdrechu i ddeall sut mae bywyd yn gweithio yng nghefn gwlad, byddwn yn parhau i ddioddef diboblogi gwledig a'r effeithiau y caiff hynny ar ein gwasanaethau hanfodol.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

YTincer@googlemail.com

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
Archwiliadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk

Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Ysgol Penweddig



Moi a Iori

**Eisteddfod Ysgol Penweddig 2025 –** roedd yna gyffro mawr ym Mhenweddig ar ddiwedd mis Chwefror wrth i lysoedd Bleddyn, Gwenllian, Hywel a Llywelyn gystadlu mewn amrywiaeth o weithgareddau amrywiol. Roedd amryw o weithgareddau gwaith cartref wedi bod ar y gweill gyda'r disgyblion ers wythnosau a chafwyd cyfle I longyfarch y buddugwryn ystod sereminiau'r dydd. Roedd naws ychydig yn fwy traddodiadol i gystadlaethau nos Iau gyda'r unigolion offerynnol, lleisiol a'r llefarwyr yn ymroi o'u gorau ar lwyfan yr ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang dydd Gwener gyda'r llysoedd yn cystadlu ar yr her llys, sgetsh, ffilm llys, stori a sain a'r corau. Bleddyn oedd yn fuddugol eleni ond rhaid canmol pob unigolyn o bob llys am ymroi mor arddercho i'r digwyddiad pwysig hwn.



Megan



Llio a Caiomhe – capteniaid y Llys Buddugol sef Bleddyn!



Steffan



Miri

Gwobr Goffa Trystan Maelgwyn - Lili
Enillydd y Goron – Megan
Enillydd y Tlws Saesneg – Tesni
Enillydd y Gadair - Efa
Tllws Cyfansoddi – Gruffydd Siôn
Enillydd Perfformiad gorau'r dydd– Miri
Enillydd Tlws Llefaru– Caoimhe
Enillydd y Tlws Lleisiol - Ioan
Enillydd Tlws offerynnol - Steffan
Enillydd y Tlws Dawnsio – Iori
Tlws Lledrith llew a'r Tlws Saesneg yn yr Eisteddfod iau – Erin



Erin



# Cerdd fuddugol Y Gadair

**gan Efa Lois**

*Aberporth, Medi 1939*
Llosga'r haul fy mhen drwy fwng o wallt,
A thywod plentyndod yn gynnes dan fy nhraed.
Tonnau'n tasgu, plant diniwed yn deifio,
Yn ddall i erchylltra yfory.

*Durban, 1942*
Cerddaf ar hyd y filltir euraidd
Gan deimlo gwres dieithr yr haul
Yn dawnsio ar fy nghroen.
Ciciaf bêl a thorheulo ar brynhawn braf
ar dywod prysur Affrica,
gan edrych tua'r gorwel,
a phoeni, weithiau, am yr hyn a ddaw.

*Dwyrain Canol, 1942*
Gyrraf y tryc cyfarwydd
drwy dywod estron
yr anialwch.
Cysgaf ar wely o dywod
Gan orwedd ar flynyddoedd o hanes.

Gyrraf heibio i Alexandria,
A Cairo
A rhyfeddod y pyramidiau
Mor dlws
yn yr haul anioddefol,
yn ddarlun breuddwydiol o'r gorffennol,
Wrth deithio'n araf tuag at hunllef
El Alamein.

Bomiau'n ffrwydro,
Gynnau'n tanio,
Golau'n fflachio.
Dynion yn syrthio ar faes y gad.

Heno
Cloddiwn drwy dywod sych i alaru,
Ein dagrau'n gwlychu ei fan gorffwys.
Un saliwt olaf
Cyn gadael Cymro arall dan dywod tramor.

*Normandi, Mehefin 1944,*
Glania'r tanc ar dywod gwaedlyd estron,
Pentyrrau o helmedau, sgidiau a gynnau'n gofebion
I erchylltrau rhyfel.
Traeth y frwydr, llwybr y meirw
A'r atgofion yn fyw yn y tywod
yn symbol o aberth yr ifanc.

*Aberporth, 1946*
Gwyliaf y tonnau'n tagu'r plant
a'r tywod yn mogi'r ewyn,
A theimlaf ddagrau'r glaw
yn anesmwyth ar fy mhen moel.
Does dim dianc rhag hunllefau'r llanw,
Gan fod fy rhyddid wedi'i garcharu yn nhywod tramor.

**Ymweliad Penweddig â Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd –** bu criw o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn gwylio perfformiad o 'An Inspector calls' yng Nghaerdydd. Reodd yn gyfle gwych i gefnogi astudiaethau'r Adran Saesneg a darparu profiad uniongyrchol fydd o gymorth mawr i'r disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU eleni.

**Taith yr Adran Amaeth i Goleg Glynllifon –** bu'r Adran Amaeth yn teithio i'r gogledd er mwyn cael blas o weithgareddau yng Ngholeg Glynllifon. Mae nifer o ddisgyblion Penweddig wedi elwa'n fawr o astudio yn y gogledd dros y blynyddoedd diweddaraf.
**Galw mawr am lefydd ar y daith Sgio!** - ar ddechrau mis Chwefror roedd yr Adran Addysg Gorfforol yn hynod falch o gael ail gynnig Cwrs Sgio i ddisgyblion cyfredol Bl 10, 11 a 12. Gwerthwyd y 50 lle cyntaf mewn llai na munud!. Diolch i'r drefn llwyddwyd i sicrhau lle i bob disgybl na'th ddatagn diddordeb ac fe fydd 89 o ddisgyblion Penweddig yn teithio tuag at lethrau Alpau'r Eidal ar ddiwedd mis Ionawr 2026.

***Trawsgwlad*** - ar ddydd Mercher oer yng nghanol mis Chwefror aeth Macs Bl 7, Gwen Bl 9 a Sali Bl 10 i gynrychioli Dyfed ym Mhencampriaeth Trawsgwlad Cymru yn Aberhonddu. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt ar gyrraedd y rowndiau cenedlaethol.

***Rygbi*** - teithiodd tim Rygbi merched Dan 16 i Lanymddyfri ar ddydd Iau y 30ain o Ionawr i gystadlu yn rownd rhanbarthol y Sgarlets ac i geisio ennill eu lle yn y rownd genedlaethol. Chwaraewyd dwy gem rygbi gorfforol caled, y merched yn fuddugol o dau gais i un yn erbyn Dyffryn Aman a hefyd yn curo Ysgol Uwchradd Hwlffordd o 26 i 10. Cafwyd perfformiadau campus gan bob un o'r merched ond rhaid canmol Emiah am ei thaclo di-flino fel blaen-asgellwraig a Bebe am gario'n galed a rhoi'r tim cyfan ar y droed flaen tro ar ôl tro. Hoffem ddiolch fel Adran i Lois a Mari am gynorthwyo Mr Thomas fel hyfforddwyr ar y diwrnod.

**Y Tîm Hŷn yn tanio** - cafwyd gem rygbi ardderchog gan Dîm Bechgyn Hŷn yr ysgol oedd yn chwarae yn erbyn Ysgol QEH, Caerfyrddin yn y rownd go-gyn-derfynnol cystadleuaeth rygbi ysgolion Cymru. Owain a Morus Bl 11 yn hawlio dau gais yr un, cais campus gan Owain gwnaeth dwyllo chwe chwaraewr ar ei ffordd i'r linell gais tra'n rhedeg hyd y cae! Cais yr un i Noa a Trystan a chicio dedwydd trwy gydol y prynhawn. Fe fyddwn yn teithio i'r De i herio Ysgol Llangynwyd nesa yn y gem gyn-derfynnol gan obeithio cyrraedd Stadiwm y Principalty unwaith yn rhagor eleni.

**Carfan y Sgarlets** - mae Owain Llŷr , Kier, Finley a Trystan bellach yn ymarfer ac yn rhan o garfan Gorllewinol Dan 16 y Sgarlets, cafwyd gêm ar gae rygbi Clwb Aberystwyth yn ddiweddar gyda'r Sgarlets yn trechu RGC o 52-3 , gyda Fin a Trystan yn hawlio cais yr un ar y diwrnod.

**Hoci -** cynhaliwyd cystadleuaeth hoci 5 bob ochr De Cymru yr Urdd ar ddydd Iau yr 20fed o Chwefror yn Abertawe. Cafodd 56 o ddisgyblion yr ysgol y cyfle i gynrychioli'r ysgol, a chafwyd cryn dipyn o lwyddiant wedi diwrnod hir a gwlyb o gystadlu. Bechgyn Bl 8 yn dod yn ail, Merched Bl 9 a 10 yn cyrraedd y gem derfynol ac yn colli mewn gem gyffrous a chyflym yn erbyn Bro Morgannwg. Ond bechgyn Bl 10 yn mynd un cam yn well, nhw oedd yn fuddugol wedi trechu Ysgol Bro Morgannwg yn y ffeinal.

**Llwyddiant Cenedlaethol** - llongyfarchiadau i Gruff am chwarae gyda Tîm Academi Cymru dan 15 yn erbyn Cardiff City, rydym yn falch iawn o'i gyrhaeddiad ar y cae pêl-droed ac yn ysu i'w weld yn datblygu ac mynd ymhellach eto'n fuan.

## Llandre

**Cydymdeimlad**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth sydyn Helen Jones, Hafod, Tai Gwynion. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys a'i gŵr Barrie a'i phlant Lee a Lisa a'r teulu i gyd.

Bu farw Liz Hughes o Landre ym Mhlas Cwmcynfelin dydd Gwener 24 Ionawr – partner Dic a chwaer Robert a David. Ein cydymdeimladau dwysaf. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Genau'r-glyn ar 25 Chwefror Derbyniwyd rhoddion tuag at yr eglwys neu Uned Cemotherapi Bron-glais.

## Trefeurig

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Mai Hughes a'r teulu, Trawsnant ar farwolaeth chwaer Mai - Beryl Humphreys, Glantwymyn.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Hywel a Maddy Lewis, Fferm Cwmerfyn, ar enedigaeth wyres fach, Tesni, allan yn UDA; merch fach i Nia a Brad.

YTincer@googlemail.com

## Gwenda James



(Talfyriad o deyrnged Penri James i'w fam, a hunodd ar Ionawr 22ain, 2025.)
Ganwyd Gwenda ym mis Tachwedd 1934 yn Nhanffordd, Tal-y-bont, yn ferch i Humphrey ac Aeronia Rowlands. Hanai Humphrey o'r Forge ger Machynlleth, ac Aeronia o hen deulu Jamesiaid Tal-y-bont. Ymhen blwyddyn bu farw Nia, chwaer hŷn Gwenda. Wedyn ganwyd ei brodyr Emyr, Maldwyn, Aled, a Richard. Mynychodd Gwenda Ysgol Tal-y-bont cyn i'r teulu symud i Frondeg, Llandre, pryd y mynychodd Ysgol Rhydypennau.

Ym mis Tachwedd 1940 bu farw ei mam o diptheria. Cadwodd ei thad y teulu ynghyd am gyfnod ond anodd oedd magu teulu a gweithio, felly gwasgarwyd y plant i Daigwynion, Tal-y-bont, Glynebwy, a Llundain.

Yn 6 oed, symudodd Gwenda i Daigwynion i fyw gydag Anti Kate ac Wncwl William, brawd ei mam-gu, lle cafodd fagwraeth hapus iawn, a chael ei thrwytho yn hanesion y teulu a'r ardal. Parhaodd yr awydd i drosglwyddo'r hanesion i'r cenedlaethau iau yng ngwneuthuriad Gwenda weddill ei hoes.

Oherwydd salwch safodd hi ddim o'r 11+; aeth o Ysgol Rhydypennau i Ysgol Dinas. Ar ól cwblhau cwrs ysgrifenyddol cafodd ei chyflogi yn Adran Llaethyddiaeth y Brifysgol ar Ffordd Llanbadarn, lle daeth i gysylltiad á phobl o wahanol rannau o'r byd.

Ffrind gydol-oes Gwenda oedd Hilda Daniel, Glyntuen, Llandre. Un tro, a nhw'u dwy yn Llundain yn gweld y 'sights', roedd helbul ar Oxford Street, gyda newyddiadurwyr a dynion camera yn dilyn merch ifanc benfelen. Dyna pryd daeth dwy ferch o gefn gwlad Ceredigion ar draws seren fawr byd y ffilmiau, Marilyn Monroe, oedd ym Mhrydain yn ffilmio 'The Prince and the Showgirl'!

Priododd Gwenda ag Erddyn James ym mis Awst 1960 a symud i fyw yn Gorwel Deg, tý a fu yn gartref llawn ymwelwyr. Byddai teulu Erddyn o Rydyfelin, brodyr Gwenda a'u ffrindiau o Lundain a Glynebwy, a hen berthnasau, ffrindiau, a newydd-ddyfodiaid i'r ardal i gyd yn cael croeso yno, a'r ffaith bod Gwenda yn 'Anti Gwenda' i holl blant yr ymwelwyr yn arwydd o'i natur gymwynasgar a hael.

Tra'n magu ei meibion, Penri a Llŷr, ymunodd Gwenda á grŵp oedd am gynnal Cylch Meithrin yn Rhydypennau. Ar agoriad yr ysgol newydd yn 1973, pan gymerodd y Cyngor Sir gyfrifoldeb am addysg feithrin, penodwyd Gwenda yn Gynorthwyydd Meithrin yn yr "Ysgol Dop". Bu yno tan 1989.

Bu'n dioddef yn enbyd o grydcymalau am hanner olaf ei hoes. Wynebodd yr amryw driniaethau, yn cynnwys cael pedair clun newydd, gydag urddas. Magodd berthynas agos a chariadus gyda'i merched yng nghyfraith, Llio a Rhian, a chyda'i hwyrion, a'r gorwyrion a ddilynodd.

Gwaith llaw cain oedd ei phleser di-baid - gwau, gwnïo, crosio, macramé, brodwaith, - gweithgaredd oedd yn tynnu sylw oddi wrth ei hanhwylderau ac yn cadw'i dwylo'n ystwyth. Ar y wal ym Methlehem mae carthen heddwch a wnaed o sgwariau gan aelodau Merched y Wawr Genau'r-glyn - Gwenda wnïodd y sgwariau unigol at ei gilydd.

Roedd Capel y Garn ac Ysgoldy Bethlehem yn bwysig iddi, ond Taigwynion oedd ei chartref, lle bu'n byw am 84 o flynyddoedd. Fe fyddai yn aml yn adrodd englyn JJ Williams, a oedd, yn ôl yr hanes, wedi ei lunio ar riniog Gorwel Deg:

*Gweld deryn gwyllt, gweld derwen gam, -*
*gweld mawn,*
*A gweld môr yn wenfflam;*
*Gweled brwyn ar dwyn di-nam,*
*A gweled mwg aelwyd mam.*

Gorffwys yn esmwyth Mam.

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

**Adroddiad Pwyllgor Chwefror 2025**
Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Chwefror 20 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr fel rhai cywir. Roedd y cyngor wedi derbyn llythyrau / ebost yn diolch am y rhoddion ariannol. Yn ystod y cyfarfod rhoddwyd sylw i'r canlynol

- Parc Chwarae Ysgol Pen-llwyn -Syniadau y Pennaeth ar ddatblygu.
- Modelau Ariannol- addasu ar gyfer Cyngor Cymuned Melindwr.

Dymuna Cyngor Cymuned Melindwr longyfarch y plant a fu yn llwyddianus yn eisteddfod Ysgol Pen-llwyn a phob lwc i'r rhai a fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn eisteddfod gylch yr Urdd.

Cynhelir cyfarfod nesaf ar 20fed o Fawrth am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor.

# Cylch cinio

Mae'n demtasiwn yn aml iawn defnyddio'r ystrydeb 'noson wahanol' wrth ddisgrifio noson. Yn wir y mae pob noson yn wahanol i bob noson arall am ryw reswm neu gilydd.

Yn sicr mi roedd noson y Cylch Cinio yng Ngwesty'r Pedwar Tymor ar nos Wener Chwefror 14eg, yn un gofiadwy, a hithau'n noson Sain Ffolant, gellir yn gwbwl gywir ei disgrifio fel noson loerig ac arall-fydol.

Ein gŵr gwadd oedd y Dr Matt Gunn sydd wrth ei waith yn Gymrawd Ymchwil yn Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth. Yn frodor o Lan Ffestiniog aeth i Ysgol Eifionydd ym Mhorthmadog ac mae bellach wedi ymgartrefu yn Nhal-y-bont.

Yn ei waith yn y Brifysgol mae Matt yn canolbwyntio ar y blaned Mawrth a hynny ar brosiect penodol, ar y cyd gyda nifer o sefydliadau ymchwil yn rhyngwladol.



**Cadeirydd y Cylch Cinio Yr Athro Geraint Vaughan gyda'r gwyddonydd y Dr Matt Gunn a Dafydd Evans yng ngyfarfod mis Chwefror o'r Cylch yn Ngwesty'r Pedwar Tymor, Aberystwyth.**

Dangosodd i ni declyn (math o gamera) sydd wedi ei adeiladu gan yr Adran yma yn Aberystwyth ac sy'n cael ei blannu ar blaned Mawrth er mwyn tynnu lluniau ffotograffig o'r tirlun. Y nod yw cael cywirdeb llwyr yn ansawdd y lliwiau - yn enwedig y graddau o gochni sydd mor nodweddiadol o Fawrth ac sydd yn ddadlennol iawn o safbwynt ein dealltwriaeth o hinsawd a chymeriad y blaned.

Wrth ddiolch i'r siaradwr dywedodd Dafydd Evans bod y gwaith ymchwil sy'n cael ei gyflawni gan yr adran Ffiseg ac adrannau eraill o'r Coleg o'r pwys mwyaf o safbwynt ein dealltwriaeth o ddirgelion y gofod. Er bod ein gwybodaeth ni o'r ser yn gyfyng iawn mae'r ffaith bod yna declyn o bwys rhyngwladol sydd wedi ei ddatblygu gan Gymry Cymraeg a'i reoli yma yn Aber yn gyffrous iawn ac o ddiddordeb mawr i ni fel pobol leol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd Yr Athro Geraint Vaughan bod John Williams a Gwynfryn Evans wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis. Dymunwyd gwellad llwyr a buan i'r ddau. Enillwyd raffl y mis gan Huw Williams.

---

Y Prifardd Mererid Hopwood oedd y gwestai yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch ym mis Mawrth. Yn enedigol o Gaerdydd mae Mererid wedi setlo yng Nghaerfyrddin ers blynyddoedd ac mae'n adnabyddus fel bardd a llenor cydnabyddiedig ac yn uchel iawn ei pharch.

Bu'n fyfyrwraig yn y Brifysgol yn Aberystwyth lle bu'n astudio ieithoedd ac erbyn hyn mae wedi dychwelyd fel Athro i'r Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn y Coleg.

Mae'n weithgar iawn mewn nifer o gylchoedd llengar ac yn frwd ei chefnogaeth i achos heddwch.

Fel y soniodd yn ei sgwrs y gellir pwyso a mesur sir yn ol ei chofgolofnau a gwych o beth bod gan Geredigion falchder yn y rhai fu'n ymgyrchu dros heddwch ( yn hytrach na milwyr) gan gyfeirio at gofebau Henry Richard ar sgwâr Tregaron a Cranogwen yn Llangrannog.

Cyfeiriodd hefyd at berthnasedd ieithoedd gwahanol â'i gilydd ( mae'n rhugl mewn nifer o ieithoedd) gan sôn am fyrdd o enghreifftiau o eiriau sydd yn dod o'r un tarddiad er bod yr ieithoedd yn ymddangos yn wahanol iawn.

Soniodd am bwysigrwydd balchder mewn iaith a sicrhau'r defnydd o'r Gymraeg ar bob cyfle. Mae iaith yn fwy na geiriau. Mae'n fwy na dim ond siarad Cymraeg yn naturiol - mae'n ffordd wahanol o edrych ar y byd, meddai.

Wrth ddiolch i Mererid dywedodd Hywel Wyn Jones,



Llanrhystud ei bod wedi cymryd yn agos i bum deg mlynedd i'r Cylch Cinio ddenu Archdderwydd fel gwestai i siarad â'r aelodau - o Gylch yr Orsedd i'r Cylch Cinio. Roedd hi'n noson ysbrydoledig, byrlymus a chofiadwy, meddai.

Enillwyd y raffl gan Aled Bebb, Goginan. Y siaradwr gwadd yn y Cyfarfod ym mis Ebrill fydd y Dr Owen Jones, Caerdydd


**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

**01970 626 200**

**R.J Edwards a'i Fab**

Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**

07792 457816
01974 261758

**e-bost**: mynachhandyman @yahoo.com

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Mawrth**
16 Dr. Rhidian Griffiths – 2.00
23 Dr. John Tudno Williams – 2.00
30 Parch Meirion Morris – 10.00
Capel Seion
**Ebrill**
6 Trefniant Lleol – 10.00
13 I'w drefnu

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs. Rita Jones, Coed Ladur a Mr. Cefin Evans, Rhiwarthen Isaf, y ddau wedi treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar, pob dymuniad da i'r ddau ohonoch, mae'r gwanwyn ar ei ffordd, gobaith a dechreuad newydd i bob un ohonom.

**Merched y Wawr Melindwr**
Dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda cawl blasus yng Nghanolfan Grefftau Rhydypennau. Estynnodd Lynne Davies groeso cynnes i bawb a braf oedd cael croesawu dwy siaradwraig newydd. Ein gwraig wadd oedd Megan Mai, Llywydd Ceredigion Merched y Wawr. Cawsom hanes ei gwaith gyda y Mudiad dros y ddwy flynedd diwethaf a mae yn syndod gymaint o waith sydd yn mynd ymlaen i sicrhau dyfodol ein hiaith a'n cenedl.Prynhawn difyr dros ben. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Rita ein hysgrifennyddes sydd wedi bod yn yr Ysbyty yn ddiweddar gan obeithio y byddwch yn ôl yn ein plith yn gyflym iawn.





**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn fel ardal a Miss Delyth a Iona Davies, Maencrannog gynt, wrth iddynt golli eu modryb yn ddiweddar. Roedd Mrs. Dilwen Ellis yn byw yn Llanddeiniol ac wedi bod yn orweddiog am sawl blwyddyn, er hynny roedd gwen a chroeso yn eu disgwyl bob tro byddent yn ymweld a hi. Coffa da amdani.

**Dydd Gweddi'r Byd**
Ar ddydd Gwener 7fed o Fawrth roedd yn Ddydd Gweddi'r Byd. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Ferched Cristnogol Ynysoedd Cook. Thema y cyfarfod oedd "Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol" a'r geiriau wedi ei selio ar Salm 139, a'r addoliad yn ein gwahodd i gydnabod bod Duw wedi creu pob un ohonom gyda gofal a chariad.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor, gyda aelodau'r eglwys ynghyd ac aelodau Capel Penllwyn yn cymryd rhan. Croesawyd pawb yn gynnes i'r gwasanaeth gan Mrs Nancy Evans ar y dechrau, a hi yn ogystal a drefnodd yr achlysur. Catrin Evans oedd yn chwarae'r organ. Cafwyd paned a chacen cyn dychwelyd i'n cartrefi wedi ychydig amser i gymdeithasu. Diolchwyd am y croeso a'r paratoadau gan Heulwen Lewis.

# Teyrnged i Phillys Myfanwy Hammond

Ganwyd Phillys ym mis Medi, 1959 yr ieuengaf o 5 o blant i Glynne a Myfanwy Thomas, Troedrhiwlwba, a gan ei bod y pumed plentyn roedd pawb o'r teulu wedi dotio arni. Aeth Phillys i Ysgol Gynradd Pen-llwyn ac yna i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn Aberystwyth. Ei phrif uchelgais ar ôl gadael ysgol oedd cael ffermio gyda'i rhieni, ac fe wireddwyd ei dymuniad am nifer o flynyddoedd. Gwelwyd Phyllis yn ogystal, yn aml yn rhoi help llaw i'w Modryb oedd yn cadw siop flodau yn Aberystwyth – Lewis the Florist, ac oddi yma y daeth ei diddordeb mewn blodau a phlanhigion.

Priodwyd Phillys ac Alan Hammond yn 1984 a dathlwyd eu Priodas Ruddem yn 2024. Ni chawsant ei bendithio â phlant er mai dyna fyddai eu dymuniad, ond roedd eu neiaint a'u nithoedd yn agos iawn at galon y ddau ohonynt.

Dechreuasant fusnes garddio yn fuan ar ol priodi a threuliau Phyllis oriau yn y sied botio planhigion amser yma o'r flwyddyn yn plannu a thraws blannu. Erbyn mis Mai byddai ganddi flodau o bob lliw a llun. Byddai hyn yn dod a boddhad mawr iddi a byddai bob amser yn dweud "Flowers are for the living". Ni welech Phyllis heb Alan yn unman bron, roeddent gyda'i gilydd mewn gwaith ac mewn hamdden.

Roedd Phyllis yn benderfynol o ddilyn ôl traed ei thad mewn amryw feysydd, a phan yn ei harddegau daeth yn stiward ar adran y defaid yn y Sioe Frenhinol ac fe'i hanrhydeddwyd ganddynt yn 2015 a'i gwneud yn Llywodraethwr Anrhydeddus am Oes., haeddiannol iawn ar ôl 40 mlynedd wrth y gwaith. Hefyd, fel ei thad o'i blaen, roedd ganddi ddiddordeb mewn defaid Cymreig pedigri ac fe ymaelododd â'r gymdeithas a bu yn aelod ffyddlon ar hyd yr amser.

Roedd Phyllis, fel ei Mam o'i blaen wrth ei bodd yn coginio, cacennau ar achlysuron arbennig a chacennau priodas, byddai'r teulu yn ymhyfrydu yn nawn y ddwy, a'r genhedlaeth iau yn cymryd yn ganiataol mai Modryb Phyll fyddai yn coginio adeg eu priodas.

Wrth hamddena, byddai Clwb Pêl-droed Lerpwl yn ffefryn yn eu cartref a byddent yn gwylio pob gêm fel cefnogwyr brwd iawn. Roedd y Tîm yma'n bwysig iddi ac o ganlyniad ffarweliwyd a Phyllis i anthem y clwb sef "You'll never walk alone".

Bydd bwlch mawr ar ei hôl, ond bydd atgofion melys iawn ohoni, bob amser gyda gwên. Fe gymerodd Alan ofal mawr ohoni yn y misoedd diwethaf, pan y dirywiodd ei hiechyd a hyderwn y bydd yr atgofion melys ohoni am 40 mlynedd yn gysur ac yn fendith iddo yn y misoedd i ddod.

Cydymdeimlwn, fel ardal a'r teulu yn eu hiraeth a'u galar a chyflwynwn hwy i ofal eu Tad nefol,"Pwyso ar Iesu, dyna gryfder, sydd yn dal y pwysau i gyd".

'Dymuna'r teulu ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn ystod eu profedigaeth'.

## Cylch Meithrin Pen-llwyn





Bu Cylch Meithrin Pen-llwyn yn brysur yn paentio cennin Pedr, creu draig, a choginio crempogau a phice ar y maen.

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website · Trefeurig8




## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 1 Mawrth**
**(1220 cliriad** llwyr)
Masnachu gwych a gwerthwyd y cyfan. Gwerthodd y mamogiaid cigog yn arbennig o dda fel y gwnaeth yr wyn blwydd trymach.
Cyplau (6)
Mwy £150 gan Daniel, Glynrheidol, Cwmrheidol.
Defad lladd (545)
Cyf £96.70 Mwy £216 gan Jones, Pencefn, Bow Street.
Mamogiaid cyfeb (128)
Cyf £88 Mwy £110 gan Jones, Fferm Pandy, Bryncrug.
Hyrddod lladd (63) Cyf £107 Mwy £188 gan Davies, Tyn Cwm, Capel Dewi.
Hoggets (470)
Cyf £86 Mwy £160 gan Evans, Cefnllwynpiod.
Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.




**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad a Sylvia Powell a Catrin, Nantybwla ar farwolaeth Dai Powell ddiwedd Chwefror,

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Evelyn Morgan, Cefnfaenor, sydd ar hyn o bryd ym Mhlas Cwmcynfelyn. Dymunwn adferiad buan iddi.

â Arthur ac Eirian Hughes, Lluest Fach, ar farwolaeth chwaer Arthur – Beryl Humphreys, Glantwymyn.

**Gartref**
Da deall fod Erwyd Howells, yn dilyn cyfnod hir yn Ysbyty Bron-glais ac wedyn gyda'r ferch Ellen, nôl adref yn Nhŷ Capel Madog.



Tomos Pantyperan, Mari Gibson, Dafi Williams, a Tomos Abercwmdolau ym mhanto CFfI Tal-y-bont. Llongyfarchiadau i Mari ar ennill y wobr gyntaf am yr actores orau dan 16 oed; Tomos Jones (Abercwmdolau) ar dderbyn yr 2il wobr, a Dafi Williams a Tomos Llywelyn Jones (Pantyperan) y 3edd wobr fel yr actorion gorau o dan 16 oed.

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888



# Bow Street

**Suliau y Garn**
*Mawrth*
23 Rhidian Griffiths
30 Watcyn James

*Ebrill*
6 Noddfa – Richard Lewis
13 Meirion Morris
20 Watcyn James
27 John Tudno Williams

**Suliau Noddfa**
*Mawrth*
30 Cyfeillach yn ngpfal Anwen

*Ebrill*
6 Richard Lewis
13 Richard Lewis. Cymundeb.
20 Richard Lewis. Sul y Pasg.
27 Cyfeillach yng ngofal Hywel

**Plas Nanteos**
Bob prynhawn Mawrth fe fydd Criw Cerdded Rees Thomas yn mynd am dro. Y lleoliad diwedd Chwefror oedd Plas Nanteos yn Nyffryn Paith , man lle roedd gan ambell un o bentrefwyr Bow Street gysylltiad agos. Gan fod Nanteos ar fin cau penderfynwyd trefnu taith o gylch y plas.

Cartref y teulu Powell oedd Nanteos am dros ddwy ganrif. Codwyd y tŷ yn 1739 mewn dull Sioraidd i deulu Thomas Powell. Roedd y teulu Powell yn dirfeddianwyr gyda 33,000 o erwau o dir, yn bennaf yng Ngogledd y sir.

Daeth cyfoeth y teulu drwy berchnogaeth gweithfeydd plwm yng Nghwmystwyth megis Abbey Consols, Blaenceunant, Strata Florida, Tyn y Fron a Powell United, Ponterwyd. Ansefydlog iawn oedd yr elw o'r gweithfeydd. Gostyngodd eu helw o £462 i £74 o fewn wyth mlynedd.

Erbyn y 1900au dirywiodd cyfoeth y teulu yn sgil costau byw, lleihad yn yr incwm a threthi marwolaeth. Rhoddwyd yr ystâd ar werth yn 1967. Ar ôl hynny bu'n gartref ac yn westy.

Yn Nanteos bu cwpan arbennig, cwpan sanctaidd gyda phŵer i wella cleifion. Tybir iddi ddod o Abaty Ystrad Fflur. Mae hi erbyn heddiw'n cael ei chadw yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Ar ôl troedio o gwmpas y plas mae dau beth yn aros yn y cof, y 'lodge' Eidalaidd lle mae'r lôn yn fforchio, gydag un lôn i'r gweision i fynd i gefn y plas a'r lôn waelod yn mynd heibio'r llyn i brif fynedfa Nanteos, ar gyfer y boneddigion. Dyma enghraifft o'r gwahaniaethu mewn cymdeithas.

Yn ail, y stablau urddasol wedi eu codi yn y dull Groegaidd. Cedwid deunaw o geffylau crand a'u cerbydau yno ac uwchben y stablau roedd y gweision yn cysgu a gweithdai'r seiri.

Mae yna gryn hanes i Nanteos ond beth fydd ei hanes nesaf ar ôl ei werthu? Hoffwn a'r ran y cerddwyr ddiolch i Geoff a Bethan Davies am drefnu y daith a'r te prynhawn yn y plas.

**Dathliadau**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i:
Paul a Jean Davies, Maes Ceiro, ar ddathlu 60 mlynedd fel gwr a gwraig yn ddiweddar.
Martin a Sian Powell, Maes Ceiro, ar ddathlu 40 mlynedd fel gwr a gwraig yn ddiweddar,
Mair Jones, Maes y Garn, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar Fawrth y 27in.

**Yn yr Ysbyty**
Mae'r Parch. Elwyn Pryse yn treulio cyfnod yn yr ysbyty wrth i'r Tincer fynd i'r wasg ac yr ydym yn cofio'n annwyl iawn ato ac yn gobeithio y bydd yn well yn fuan.



## Dymuniadau gorau

Jaci a Felicity ar ddiwrnod eu Seremoni Partneriaeth Sifil ym Mhlas Nanteos ar Fawrth 1af. 'Cawson ni amser gwych, llawn llawenydd, popeth yn berffaith. Diolch i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y seremoni, yn paratoi'r bwyd a gweini arnom, a'r rhai oedd wedi cynorthwyo mewn sawl ffordd i sicrhau bod y trefniadau yn mynd rhagddynt yn ddiwniad. Mor drist i feddwl bod y Plas ar fin cau, ac wedi cau erbyn hyn.'

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus i Mr Llywelyn Mason, 31 Tregerddan, a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar y 9fed o Ebrill. Dymuniadau gorau a llawer o gariad oddi wr h y teulu i gyd.



## Garn

Bu cynulleidfa'r Garn yn cydaddoli â chynulleidfa Noddfa fore Sul, Chwefror 2il, dan arweiniad y Parch Richard Lewis. Y Parch. Eifion Roberts fu'n arwain ein gwasanaeth cymun brynhawn Sul y 9fed, Mr Lyndon Lloyd fu'n ein tywys ar Chwefror 16eg, a'r Parch Peter Thomas fendithiodd ein hoedfa ar Chwefror 23ain.

Brynhawn Mercher cynta'r mis daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd i gael paned yn y festri, ac i grynhoi stampiau at Gymdeithas y Deillion. Cyfrannwyd hefyd £50 at elusen Water Aid.

Nos Wener, Chwefror 21ain, "Llechi



Cymru – dros y byd" oedd testun Dr Dafydd Roberts, Cyn-geidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, siaradwr gwadd y Gymdeithas Lenyddol.

Cawsom ein cyfareddu gan hanes helaeth a rhyfeddol y diwydiant llechi yng ngogledd- orllewin Cymru, sydd, ers 2021, ar restr Safleoedd Treftadaeth Byd UNESCO.

Brynhawn Gwener, Chwefror 28ain, cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel, dan ofal y Parch. Ddr R. Watcyn James, i ddiolch am fywyd a gwasanaeth y ddiweddar Gwenda James, Taigwynion, a fu farw ar Ionawr 22ain yn 90 mlwydd oed, ac a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o'r capel gydol ei hoes. Cydymdeimlwn ag Erddyn, ei gŵr, Penri a Llyr, ei meibion, ac â'i hwyrion a'i gorwyrion, a'r teulu i gyd.



## Cogyddion ifanc

Disgyblion Ysgol Rhydypennau yn mwynhau sesiwn o goginio gyda disgyblion hŷn Penweddig.

**Marwolaeth**

Trist clywed am farwolaeth Bert Jones, Glan Nant, yng nghartref Plas y Cwm. Ein cydymdeimlad a'i wraig Mati sydd hefyd yn y Cartref ac â'r plant . Iolo a Non

**Merched y Wawr**

Ym mis Chwefror cawsom ein cyfarfod yn y prynhawn yn y Llyfrgell Genedlaethol pryd wnaeth Einion Gruffudd ein tywys o gwmpas Archif Darlledu Cymru. Gwelsom archifau BBC Cymru, tapie HTV a ffeilie S4C lle dangoswyd digwyddiadau yn ardal Rhydypennau. Prynhawn diddorol dros ben a orffennwyd gyda phaned a chacen yn y caffi. Hyfryd.

## Capel Noddfa

'... oherwydd mae pawb o'm cymdogion yn gwybod dy fod yn ferch deilwng.' Llyfr Ruth.

Maria oedd yn gyfrifol am y Gyfeillach mis Chwefror a'i thema oedd 'Merched a Chrefydd'. Yn hanner cyntaf ei myfyrdod atgoffodd Maria ni o rai o ferched y Beibl gan roi sylw arbennig i Efa; Miriam; Ruth ac Esther o'r Hen Destament a Mair mam yr Iesu; Mair Magdalen a Mair chwaer Martha sef tair o'r saith Mair sydd yn y Testament Newydd. Soniodd hefyd am ferch Jairus.



Yn yr ail hanner trafododd Maria gyfraniad merched at grefydd yng Nghymru gan gychwyn gyda'r emynyddes Ann Griffiths. Yna soniodd am Mari Jones yn cerdded i'r Bala i brynu Beibl a chychwyn Cymdeithas y Beibl yn 1804. Dangosodd Maria gopi sydd yn ei meddiant o un o'r llyfrau cyntaf os nad y cyntaf i gofnodi hanes Mari Jones. Y ferch nesaf ddaeth dan ei sylw oedd Cranogwen a'i hanes yn annerch dros fil o bobl yng Nghilfynydd. Yna trafododd fywyd Annie Hughes Griffiths oedd yn un o sylfaenwyr y Ddeiseb Heddwch a lofnodwyd gan filoedd o ferched Cymru yn y 1920au. Dangosodd Maria gopi o lofnodau rhai o ferched Bow Street oedd wedi llofnodi'r ddeiseb gan gynnwys ei mam-gu Margaret Jane Roberts ac Elizabeth Nuttall hen fodryb i Gaenor. Roedd Margaret Roberts yn byw yn Ceulanfryn, Penrhiw ac Elizabeth Nuttall yn byw yn Hafle, Penrhiw a'r ddwy'n aelodau ffyddlon o Gapel Annibynnol Bow Street gafodd ei enwi'n Noddfa ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf.

Terfynodd Maria ei myfyrdod gan gyfeirio at ddwy ferch sy'n gweithredu cenhadaeth yr Iesu heddiw sef yr Archddiacon Eileen Davies a'i gwaith gyda'r elusen Tir Dewi a'r Parch Beti Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr.

Daeth y myfyrdod i ben drwy ganu emyn Eleazar Roberts 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw' ac Arwel yn cyfeilio.

Anwen sy'n gyfrifol am y Gyfeillach ar ddiwedd mis Mawrth a bydd Dana Edwards yn dod i'n annerch.

# Y Borth

**Bant i Batagonia**
Dymuniadau gorau i Lleucu Haf a'i merch saith oed, Eleanor, sydd newydd symud i fyw i Batagonia am ddeg mis.

Bydd y ddwy yn ymgartrefu yn Esquel lle bydd Lleucu yn dysgu Cymraeg drwy Gynllun yr Iaith Gymraeg sy'n cael ei redeg gan y Cyngor Prydeinig.

Hedfanodd y ddwy i Buenos Aires ar ddydd Gwener 7 Mawrth a hynny yng nghwmni modryb Lleucu – Anna ap Robert – sydd hefyd wedi cael swydd yn dysgu Cymraeg gyda'r Cyngor Prydeinig am ddeg mis.

Dyma'r eildro i Lleucu ac Eleanor dreulio amser yn Y Wladfa, ar ôl treulio deg mis yn y Gaiman yn 2023.

Mae Lleucu wedi bod yn gweithio fel athrawes dosbarth derbyn yn Ysgol Rhydypennau, lle mae Eleanor hefyd wedi bod yn ddisgybl.

"Dw i wrth fy modd yn gweithio gyda phlant ac mae gen i ddiddordeb mawr mewn datblygiad ieithyddol," meddai Lleucu, a raddiodd mewn Ffrangeg ac Eidaleg o Brifysgol Aberystwyth yn 2018 ac sydd hefyd yn siarad Sbaeneg yn rhugl. "Dw i'n edrych



Eleanor a Lleucu yn mwynhau hufen iâ pan oedden nhw'n byw ym Mhatagonia yn 2023.

ymlaen at ddychwelyd i Batagonia a helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau drwy gael eu trochi yn yr iaith."

Bydd Eleanor hefyd yn caboli'r Sbaeneg a ddysgodd pan oedd hi yn Y Wladfa yn 2023. "Mae hi yn yr oedran perffaith ar gyfer antur fel hon," meddai Lleucu. "Mae gallu rhoi'r anrheg o iaith arall i'ch plentyn yn beth arbennig. Mae'r cyfle i wella fy Sbaeneg yn rheswm mawr dros eisiau dychwelyd, a rhoi cyfle i Eleanor gynnal ei sgiliau hefyd."

Gwreiddiwyd y Gymraeg yn yr Ariannin dros 150 o flynyddoedd yn ôl gan deuluoedd o Gymry a fudodd ar draws y Môr Iwerydd i sefydlu gwladfa newydd yn Nyffryn Chubut yn 1865. Erbyn heddiw, mae tua 50,000 o drigolion Patagonia o dras Gymreig.

Edrychwn ymlaen at glywed mwy am anturiaethau'r teulu o Geredigion!

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau ar gyfer gwellhad buan i Elizabeth Evans Moorlands a dreuliodd bedair wythnos yn ysbyty Bronglais yn dilyn cwymp cas. Mae bellach yn gwella yn Rhydychen ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl adref yn Y Borth ar gyfer y Pasg.

## Ffarwelio â Mr Doyle

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, o dan heulwen braf y gwanwyn, daeth pobl o bell ac agos i dalu'r deyrnged olaf i Mr Bill (Paddy) Doyle fu farw yn 98 oed.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys San Mathew ar ddydd Sadwrn 1 Mawrth ac, yn briodol iawn i'r gŵr fu'n adnabyddus i nifer fel 'dyn y *donkeys*', asyn wnaeth arwain y prosesiwn angladdol at yr Eglwys.

Ganed Mr Doyle yn Iwerddon yn 1926 a chafodd ei fagu mewn ardal wledig yng Ngogledd Iwerddon, yr ieuengaf o blith pedwar o blant. Daeth draw i weithio yn yr Alban yn gyntaf cyn symud i Geredigion tua diwedd y 1950au.

Cyfarfu â Betty mewn neuadd ddawns yn Aberystwyth lle'r oedd hi'n gweithio ar y pryd. Cyn hir, roedd y ddau wedi priodi ac ymgartrefu yn Y Borth, lle wnaethon nhw fagu pedwar o blant – Sarah, Ann, Jane ac Andrew.

Roedd yn gymeriad cyfarwydd yn y pentre' ac roedd ganddo fusnes poblogaidd yn cynnig reid ar gefn asyn ar hyd y traeth yn ystod yr haf. Tan y cyfnod clo, byddai'n mynd i ffair geffylau Llanybydder bob mis yn ddi-ffael, yn gwisgo un o'i siwtiau trwsiadus ac un o'i hetiau smart niferus.

Yn ogystal â'r asynnod, bu Mr Doyle yn gweithio mewn amryw o swyddi yn lleol. Roedd ymhlith y 400 o ddynion a helpodd i godi argae Nant y Moch a'r twneli oedd yn arwain o'r gronfa lawr at y ganolfan trydan hydro yng Ngorsaf Bŵer Cwm Rheidol a agorwyd yn 1964.

Adeg Nadolig, byddai'n gweithio ar ffarm tyrcwn Tynparc yn Llandre lle cyfarfu â'r bechgyn Raw Rees gan ddod yn ffrindiau oes. Daeth yn ffrindiau hefyd â'r diweddar Ray Gravell ar ôl cwrdd â'r darlledwr a'r cyn chwaraewr rygbi, ynghyd â Frank Hennessy, yn ystod taith Radio Wales i'r Borth. Dyna oedd y cyntaf o sawl cyfweliad a recordiwyd gyda Mr Doyle ar gyfer yr orsaf radio.

Arferai ddweud ei fod yn ddyn



Y diweddar Mr Bill (Paddy) Doyle

cyfoethog a hynny oherwydd y ffrindiau da oedd ganddo, y bywyd roedd e'n ei fyw a'i deulu, oedd yn meddwl y byd iddo. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei deulu.

# Marchnad Ffermwyr Y Borth



**Trefnydd marchnad ffermwyr Y Borth, Kate Doubleday (ar y dde), gydag un o'r stondinwyr, Rowena Lloyd.**

Ddeg wythnos ers sefydlu'r fenter, dywed trefnydd Marchnad Ffermwyr Y Borth ei bod wrth ei bodd â'r ymateb ac am estyn diolch i bawb sydd wedi cefnogi.

Mae'r farchnad yn cael ei chynnal yng nghanolfan Seren y Môr bob dydd Iau rhwng 10yb ac 1yp.

Bob wythnos, mae o ddeutu deg o stondinwyr yn ymgasglu yn y ganolfan i gynnig amrywiaeth o gynnyrch gan gynnwys cawsiau, bara cartref, pice ar y maen, cig organig, wyau, llysiau, llaeth lleol a mwy.

"Mae'r ymateb wedi bod yn wych hyd yma a hoffen i ddiolch o galon i bawb – i'r sawl sydd wedi helpu gyda'r trefniadau, i'r stondinwyr ac i'r bobl sydd wedi dod yma i siopa," meddai Kate Doubleday.

Mae caffi 'pop-yp' yn cael ei osod yng nghefn y neuadd hefyd, gyda phaned a bwyd cartref dan ofal perchennog Uncle Albert's yn y pentref.

Y bwriad yw neilltuo un o fyrddau'r caffi ar gyfer dysgwyr sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. Mae Elin Hefin, sy'n helpu gyda'r trefniadau, yn chwilio am wirfoddolwyr fyddai'n hapus i sgwrsio'n Gymraeg dros baned felly rhowch wybod os oes gennych chi ddiddordeb.

**GwylBorthFfest**

Bydd yr ŵyl yn dychwelyd i'r Borth eto eleni ar benwythnos gŵyl banc olaf mis Mai 23-26.

Yn ychwanegol at y miri creadigol arferol, mae yna gystadlaethau gyda gwobrau ariannol, yn eu mysg:-

- Cystadleuaeth creu ffilm ffôn ar gyfer pobl ifanc er cof am John Hefin
- Cystadleuaeth Gelf er cof am Muriel Delahay
- Cystadleuaeth steil gwisg trawiadol er cof am Mr Bill Doyle
- Bydd cystadleuaeth y Bwganod Brain yn dychwelyd eleni eto.

Cynhelir amryw o arddangosfeydd gan artistiaid y pentre mewn gwahanol leoliadau ledled y Borth, yn ogystal â pherfformiadau cerddorol, dangosiad ffilm 'Borth' gan Gideon Koppel a'i ffilm 'Sleep Furiously'. Bydd y ddwy ffilm yn cael eu dangos yn Libanus.

Bydd Caryl Parry Jones yn cynnal gweithdai cyfansoddi cân yn y Gymraeg a'r Saesneg, a dylid cofrestru o flaen llaw am le ar y gwewithdai yma.

Ceir manylion pellach am hyn oll ar dudalen Instagram/Facebook GwylBorthffest yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dewch draw! Mae na rywbeth at ddant pawb!

**Carnifal Y Borth**

Mae pwyllgor y carnifal yn chwilio am frenhines ar gyfer eleni ac yn gofyn i bobl ifanc lleol rhwng 11 a 15 oed sydd â diddordeb i anfon e-bost at y cadeirydd Carol Bainbridge erbyn 22 Mawrth yn amlinellu pam eu bod yn dymuno'r rôl.

Y dyddiad ar gyfer diwrnod y carnifal eleni fydd dydd Gwener 1 Awst a bydd y rhaglen ar werth mewn busnesau lleol cyn hir gyda manylion llawn am yr holl ddigwyddiadau a chystadlaethau.



# Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Nansi Hayes ar enedigaeth ei hail or-wyres. Mae Menna Hedd i'w gweld yn y llun gyda'i mam-gu Sharon a'i thad-cu Pete. Dymuniadau gorau i bawb a chroeso cynnes i'r byd i Menna Hedd.




**Pen-blwydd Arbennig**

Pen-blwydd hapus iawn i Jackie Bat-isha sydd newydd ddathlu ei 80. Mae Jackie a'i phartner Lin yn byw yn y Borth ers sawl blwyddyn ac arferai'r ddwy redeg siop Stars yn Aberystwyth.



# Eglwys San Mathew

Ymunodd aelodau Eglwys San Matthew gydag Eglwys Fach ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd a gynhaliwyd eleni ar ddydd Gwener 7 Mawrth.

Cofiwch fod Eglwys San Matthew yn cynnal Ysgol Sul ar ddydd Sul cyntaf y mis yn y Den. Mae croeso i bawb a gall plant a rhieni fod yno am awr rhwng 11yb a hanner dydd.

YTincer@googlemail.com

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

## Catrin Pugh Jones

Ar ddydd Sadwrn 1 Mawrth, chwaraewyd cystadleuaeth gyntaf y flwyddyn a hynny i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cystadleuaeth flynyddol yw hon a noddir gan Anna Hubbard, cyn Gapten a chyn Llywydd y Clwb.

Ar ddiwrnod heulog hyfryd, y tîm buddugol oedd Barbara Reece, Sue Wilson a Jackie Fribbens gyda 74 pwynt ac yn yr ail safle Karen Evans, Helen Lewis (ein Capten) a Ruth Jones ar 73.



**Aelodau'r tîm buddugol – Jackie Fribbens, Sue Wilson a Barbara Reece gydag Anna Hubbard a'r Capten, Helen Lewis.**

Llongyfarchiadau i'r enillwyr.

Yn adran y dynion cafwyd cystadleuaeth dathlu Gŵyl Dewi'r diwrnod canlynol ac unwaith eto roedd yr haul yn tywynnu'n braf ar y cwrs. Dyma'r canlyniadau:

1af John Blackburn - 38 pwynt
2ail Barry Williams - 37 pwynt
3ydd Ronald Thomas - 37 pwynt

**Cofio Alan Prytherch**

Caiff digwyddiad arbennig ei gynnal yn y clwb ar ddydd Sadwrn 29 Mawrth i gofio am y diweddar Alan Prytherch, un o chwaraewyr golff amatur gorau'r clwb a fu farw ar Ddydd Calan.

Bydd cystadleuaeth 18 twll yn cychwyn am 10 y bore, gyda gwahoddiad i dimau o dri chwarae ar fformat Texas Scramble, ac yna cystadleuaeth pytio i blant rhwng 3.30 a 5yp.

O 5.30yp ymlaen, bydd y gweithgareddau'n symud i mewn i'r clwb ei hun lle bydd bwyd, cyflwyno gwobrau ac adloniant gyda'r band lleol Chasing Cats.

Mae croeso i bawb a bydd elw'r dydd yn mynd at Gymdeithas Alzheimer.

**Noson Dathlu Dewi**

Ar drothwy'r penwythnos o gystadlu, cafwyd noson arbennig i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi a hynny yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd yn ei chlywed yn canu alawon gwerin, ac yn adrodd chwedlau a storiâu o sir Feirionydd.



**Mair Tomos Ifans yng nghwmni capteiniaid y clwb, Nick Downing a Helen Lewis.**

## Treftadaeth Leol

Mae pwyllgor y Neuadd wrthi'n creu arddangosfa dreftadaeth barhaol yn Neuadd Rhydypennau. Bydd cyfoeth o ddelweddau a gwybodaeth am y Neuadd a phentref Bow Street yn cael ei arddangos.

Y bwriad ydy cael nifer o wahanol arddangosfeydd bob ychydig fisoedd, gan gynnwys dathlu pen-blwydd 150 mlynedd Ysgol Rhydypennau yn 2026. Dewch i ymuno â ni ar gyfer lansiad y ddwy arddangosfa gyntaf: Blas ar Hanes y Neuadd sy'n cwmpasu hanes y Neuadd a'r pentref o'r 1920au cynnar hyd at heddiw (yr Athro Hywel Roberts ydy awdur a llefarydd y ffilm). Yn Helfa Gaerwen cawn sgwrs ddifyr rhwng y bardd a'r cyfarwydd Vernon Jones a Gareth William Jones am rai o'r gymeriadau mawr Bow Street. Bydd byrddau arddangos dwyieithog i'w gweld yn ogystal â fideos a sioeau-sleidiau.

Nos Wener Ebrill 4ydd 2025, 7yh. Mynediad am ddim. Lluniaeth ysgafn.




**Gofaint 1910**



**Tomi John Hughes ar ei dractor carnifal**

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**DATHLIADAU**

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn gyfle i ddathlu llawer o ddiwrnodau gwahanol yn yr ysgol.

**Dydd Mawrth Ynyd**

Cafwyd llawer iawn o hwyl ar y diwrnod yma. Yn ogystal â chreu a choginio crempogau yn y dosbarthiadau, roedd y plant wrth eu boddau'n cael rasys taflu crempog ar yr iard! Roedd yn gystadleuaeth gyffrous iawn fel y gwelwch o'r llun!

**Dydd Gŵyl Dewi**

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o blant wedi gwisgo yn eu gwisgoedd traddodiadol a rhai mwy modern yn ystod y dydd er mwyn dathlu dydd gŵyl ein Nawddsant.

Roedd Dydd Gŵyl Dewi yn gyfle eto i ddathlu ein gwlad a'n hiaith yn yr ysgol. Cafwyd llawer o weithgareddau diddorol gan gynnwys creu a choginio pice ar y maen – mmmmm! Roedden nhw'n flasus.

**Diwrnod y Llyfr**

Mae dathlu Diwrnod y Llyfr yn creu tipyn o gynnwrf bob amser a doedd eleni ddim eto yn ddim gwahanol. Gwelwyd y cymeriadau arferol i gyd ac roedd hi'n hwyl i weld y gwisgoedd lliwgar. Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol am drefnu'r diwrnod.
Cofiwch wario'r talebau a mwynhewch y darllen.

Diolch yn fawr i'r staff am y gwaith caled o drefnu a pharatoi ar gyfer y diwrnodau yma ac i'r rhieni am sicrhau'r gwisgoedd i bawb.

**Ysgol y Goedwig**

Mae'r tywydd wedi bod yn ffafriol yn ddiweddar, perffaith ar gyfer ein gweithgareddau Ysgol y Goedwig. Un weithgaredd wnaeth y plant fwynhau'n fawr oedd creu calonnau allan o ddeunydd naturiol a godwyd o gwmpas yr ysgol ar Ddiwrnod Sant Ffolant. Cafwyd sawl syniad arbennig iawn – chwarae teg i chi blant.

Gweithgaredd arall ddiddorol oedd creu hylifau hud a lledrith a chreu paent gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Diolch yn fawr i Cath am bob cymorth gyda'r gwaith glanhau wedyn!

Ond, does dim yn well gan y plant ar ddiwedd y dydd na chynnau tân a choginio byrfwyd blasus. Y tro yma crumpets oedd y wledd ac fel y gwelwch o'r llun, mae'r plant yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri!

Diolch yn fawr i'r staff ac i ffrindiau'r ysgol am gynnal gweithgareddau difyr ac amrywiol yn – mae'r plant yn cael profiadau gwych.

**Plant 3 oed?**

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.










# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Eisteddfod offerynnol**
Llongyfarchiadau i Harry Curtis am ddod yn gyntaf yn yr Unawd soddgrwth ac i Iona Parry am ddod yn drydydd yn yr unawd Telyn. Pob lwc i ti Harry yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Diwrnod rhif NSPCC**
Cafodd y Dosbarth Dysgu Sylfaen hwyl a sbri yn chwilio am 'Buddy', masgot yr NSPCC ac i ddarganfod ffeithiau rhif am yr athrawon. Hoff rif pwy yw 26?

**SUSTRANS**
Diolch i Alice, Swyddog Teithiau Iach, am gynnal cyflwyniad i hyrwyddo teithio llesol yn ein cymuned. Ymgeisio i ddenu mwy i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol. Dosbarth 4 sydd ar y brig ar hyn o bryd!



**Ffilmio 'Caban Banana Gareth' Blwyddyn 1 &2**
Roedd bwrlwm yn yr ysgol wrth i griw o 'Cwmni Da' ar ran S4C ffilmio'r plant ar gyfer rhaglen deledu newydd. Roedd y set yn edrych yn wych. Roedd pawb wedi gwirioni efo Gareth! Bydd y rhaglen newydd sbon yn cael ei darlledu ym mis Awst. Dilynwch Instagram yr Ysgol i wybod mwy yn yr Haf.






*Cyfarwyddwyr Angladdau*
*C. T. Evans*

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim

TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC

01970 828 992

## Ysgol **Pen-llwyn**

**Gornest lyfrau**
Llongyfarchiadau i'r ddau dîm am gystadlu yng Ngornest Llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru, a drefnwyd gan Dîm Cefnogi'r Gymraeg Ceredigion.

Blwyddyn 5 & 6 wedi darllen a thrafod *Llanddafad* (Gareth Evans Jones – Y Lolfa)… da iawn Ifan, Megan, Erin a Talys.

Blwyddyn 3 & 4 wedi mwynhau darllen a thrafod *Cwm Cawdel* (Gwennan Evans – Gwasg Carreg Gwalch)'… da iawn Olivia, Phoebe, Branwen a Iori.

**Dreigiau Bach**
Diolch i Tracey a Callum o gwmni 'Dreigiau bach' am ddod i gynnal sesiwn hwyliog ar brynhawn braf, dyfodol carfan rygbi Cymru yn edrych yn addawol!







## **Llwyncoch** (Y ddwy ysgol)

**Ymwelwyr**
Braf yw croesawu Derrick Adams atom i gynnal gwasanaethau bywiog sydd â negeseuon pwerus. Y plant yn edrych ymlaen at y triciau!

Croesawyd Mr Williams, Pennaeth Ysgol Gyfun Penweddig i siarad am yr ysgol gyda CA2.

Diolch i PC Hanna am drafod ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda blwyddyn 5 & 6 a sylweddau peryglus i flwyddyn 3& 4

**Gŵyl Cymreictod i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi**
Wel am wledd i ddathlu Cymreictod cafon ni ar y Dydd Gwener cyn hanner tymor! Cyfle i CA2 Penrhyn-coch ymuno â chriw Pen-llwyn am sesiwn Twmpath a chlocsio gyda Tudur Philips. Talent gudd gyda Mr Jones! Dosbarth Sylfaen Pen-llwyn aeth draw i Benrhyn-coch gyda ffocws y Celfyddydau Mynegiannol, defnyddio brethyn i greu ledi Gymreig gyda Mrs Evans, twmpath gyda Mrs Jones a canu carioca a thê Cymreig gyda Mrs Davies!

**Eisteddfod ysgol**
Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn ein heisteddfodau Ysgol. Braf oedd agor y drysau i wahodd rhieni a ffrindiau'r ysgol i dystio talentau gwych y ddwy ysgol. Llongyfarchiadau i Iona Parry, Penrhyn-coch ac i Ryan Jones, Pen-llwyn am ennill y Gadair.

**Sight Cymru**
Cafwyd mewnweledied i bwysigrwydd i ofalu am ein llygaid ac am yr heriau mae pobl ddall yn ymdrin ag yn eu bywydau. Da iawn i chi sydd eisoes wedi bod i'r optegydd ac am aros am eich gwobr gan Sight Cymru yn eiddgar.

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com










## Ysgol **Rhydypennau**

**Gŵyl Ddewi**

Yn ystod ein dathliadau Gŵyl Ddewi eleni, cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg Gymreig, dysgwyd am hanes bywyd ein Nawddsant a mwynhaodd y plant llond bol o gawl cennin a bara brith i ginio.  I ychwanegu at y dathlu, cafodd plant blwyddyn 1 a 2 gwmni Beca o fusnes coginio 'Becws' a buont yn brysur iawn yn coginio toreth o bice blasus. Am wledd!

**Ymweliadau**

Fel rhan o'u prosiect 'Gwastraff Bwyd' aeth plant blynyddoedd 5 a 6 i Ysgol Gyfun Penweddig am y bore er mwyn cyfweld â chriw prosiect 'Sbarion'. Cafodd y plant gyfle hefyd i goginio myffins banana. Diolch i griw Sbarion am ateb cwestiynau'r plant a diolch hefyd i Ysgol Penweddig am gael defnyddio adnoddau a chyfarpar yr ystafell goginio. Cafodd y plant brofiadau arbennig!

Ar y 6ed o Fawrth fe aeth plant blynyddoedd 5 a 6 i safle Statkraft yng Nghwmrheidol. Cafodd y plant daith o gwmpas y pwerdy i weld sut mae'r cynllun hydro yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'r grid cenedlaethol. Bore difyr iawn.



Ymweliad Statkraft, Cwm Rheidol.



Rhai o blant Blwyddyn 6 gyda Criw Sbarion Ysgol Penweddig.



Dathlu Gŵyl Dewi



Dathlu Gŵyl Dewi

**Bendibwmbls**
Ddydd Iau 21ain o Chwefror daeth ymwelwyr arbennig i weld blynyddoedd 1 a 2 - Ben Dant o raglen Bendibwmbls ar Cyw. Nod y rhaglen ydy codi ymwybyddiaeth o ailgylchu ac ailddefnyddio a buodd Ben Dant a'r criw yn ffilmio blwyddyn 2 tra'n adnewyddu'r llwyfan perfformio ar fuarth yr ysgol. Bu'r diwrnod yn brofiad gwerth chweil i'r disgyblion weld sut mae rhaglen deledu'n cael ei chreu. Cadwch lygad allan am y rhaglen yn cael ei darlledu ar s4c yn hwyrach yn y flwyddyn.



Blwyddyn 2 gyda Ben Dant a'r Criw



Ymweliad Bendibwmbls



Ffarwelio gyda Miss Haf a Mrs Roberts

**Ffarwelio**
Yn anffodus, bu'n rhaid ffarwelio â thair aelod o staff yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i Miss Lleucu Haf, Mrs Elen Roberts a Mrs Nicola Cooke am eu cyfraniadau sylweddol i fywyd yr ysgol. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: *http://www.*rhydypennau.*ceredigion.sch.uk* *@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*



Ffarwelio gyda Mrs Cooke

# Tasg y Tincer

Daeth pentwr hyfryd o luniau drwy'r post a'r ebost. Roedd eich dreigiau yn werth eu gweld – diolch i chi i gyd, a daliwch ati: Elsi Wynn, Penrhyn-coch; Ifan Edwards, Penrhyn-coch; Anest Emlyn, Penrhyn-coch; Steffan Jones, Caerffili; Tirion a Carian Evans, Y Borth; Ernest Pugh, Y Borth; Ffion Pugh, Y Borth; Alys, Bow Street.




Annest

Ti, Anest ddaeth o'r het yn gynta y tro hwn. Ro'n i'n hoffi teitlau dy lyfrau'n fawr. Hwrê!!

Dwi wrth fy modd yn darllen llyfrau o bob math. Ydych chi? Mae'n amser cystadleuaeth **GwobrTir na n-Og**, a dyma'r llyfrau sydd yn y ras am y wobr: *Ni a Nhw*, *Arwana Swtan a'r Sgodyn Od*, a *Llanddafad*. Beth am ddarllen y tri? Byddwn yn gwybod erbyn yr haf pwy sydd wedi ennill – pob lwc i bawb!

Cofiwch am **Sul y Mamau** ar 30 Mawrth – diwrnod i roi brecwast yn y gwely i Mam ar y bore hwnnw. Ac mae **Eisteddfod Penrhyn-coch** ddechrau Ebrill. Pob lwc os ydych chi'n cystadlu. Bydd rhaid mynd i gefnogi, yn bydd? A byddwn yn **troi'r clociau** hefyd cyn diwedd y mis – hwrê!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Y tro hwn, beth am liwio llun o'r ci sydd yn mwynhau mynd i'r siop lyfrau a'r llyfrgell? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 8 Ebrill. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

Rhif 477 | Mawrth 2025